# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 31 Hydref 2000

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Mesurau a Noddir gan y Cynulliad

**C11 Peter Black:** Pa drafodaethau a fu rhwng Prif Weinidog Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch neilltuo amser i Fesurau a noddir gan y Cynulliad o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU? (OAQ7385)

**Prif Weinidog Cymru:** Caf drafodaethau rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol ar y mater hwn. Gobeithiaf y rhoddir cyfran briodol o amser ar gyfer cynigion y Cynulliad yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, rhaid i Lywodraeth y DU ystyried ceisiadau Gweinidogion a gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU am amser ar gyfer deddfu yn y Senedd, sydd bob amser yn gyfyngedig iawn.

### Diogelu Buddiannau Gogledd Cymru ym Mholisïau'r Cynulliad

**C12 Nick Bourne:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu ei gynigion i ddiogelu buddiannau gogledd Cymru ym mholisïau Cynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ7405)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ymateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd gan Janet Ryder yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach y prynhawn yma. Fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am gydlynu polisi'r Llywodraeth yng ngogledd Cymru, byddaf yn sicrhau na fydd gogledd Cymru o dan unrhyw anfantais wrth ddyrannu adnoddau, wrth wneud penodiadau cyhoeddus ac ar draws holl amrediad gweithredoedd Llywodraeth gan y Cynulliad, am nad oes Aelodau o ogledd Cymru yn y Cabinet.

### Dirprwy Brif Weinidog Cymru (Atebolrwydd)

**C13 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch pwy y mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru yn atebol iddo? (OAQ7408)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae holl aelodau'r Cabinet yn atebol i'r Cynulliad yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a'r Rheolau Sefydlog.

### Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru (Gwahaniaeth)

**C14 Helen Mary Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru egluro'r gwahaniaeth rhwng rôl a dyletswyddau Prif Weinidog Cymru a Dirprwy Brif Weinidog Cymru? (OAQ7389) ***Tynnwyd yn ôl.***

### 'Rhoi Cymru'n Gyntaf' (Effaith ar Ddatblygiad Polisi)

**C15 Jonathan Morgan:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru amlinellu'r modd yr effeithiwyd ar ddatblygiad polisi cyffredinol y Cynulliad yn sgîl mabwysiadu 'Rhoi Cymru'n Gyntaf'? (OAQ7411) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyfrifiad 2001

**C16 Owen John Thomas:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ymateb Llywodraeth Cymru i fethiant awdurdodau Cyfrifiad 2001 i gydnabod bodolaeth pobl Cymru? (OAQ7399)

**Prif Weinidog:** Rhoddais bwysau ar y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol a gofyn i Lywodraeth y DU i newid ffurflen y cyfrifiad fel ei bod yn cynnwys bocs ticio ar gyfer Cymru.

Dim ond ar ôl i'r ffurflen ar gyfer yr Alban gael ei newid ar y funud olaf y daeth yr anghysondeb rhwng patrwm y bocs ticio yn yr Alban ac yng Nghymru i'r amlwg. Erbyn hynny, yr oedd yn rhy hwyr i'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol newid y ffurflen ar gyfer Cymru gan fod y ffurflenni wrthi'n cael eu hargraffu. Mae patrwm y bocs ticio yn yr Alban yn galluogi pobl groenwyn o'r Alban i gyfeirio at eu hunain fel Albanwyr drwy dicio bocs, er nad yw pobl groenddu o'r Alban yn gallu ticio bocs o'r fath.

Croesawaf ddatganiad Len Cook, Ystadegydd Cenedlaethol Lloegr a Chymru, ddydd Mercher diwethaf y bydd yn darparu manylion ar hunaniaeth Gymreig ledled Cymru drwy gasglu gwybodaeth newydd, ehangach, yn yr arolwg o'r gweithlu a gynhelir y gwanwyn nesaf. Mae hefyd wedi rhoi ymrwymiad y bydd pawb sydd yn defnyddio'r bocs llenwi-i-mewn ar ffurflen y cyfrifiad i ddweud eu bod yn Gymry yn cael eu cyfrif. Mae'r opsiwn hwnnw'n agored i holl bobl Cymru, beth bynnag fo'u cefndir neu eu tras ethnig.

Anogaf bawb yng Nghymru i lenwi eu ffurflenni cyfrifiad fis Ebrill nesaf. Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth bwysig iawn. Cymru fydd yn dioddef os caiff poblogaeth Cymru, neu unrhyw ran ohoni, ei chofnodi'n anghywir o ganlyniad i anufudd-dod sifil mewn ymateb i'r cyfrifiad.

### Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth

**C17 Dafydd Wigley:** Pa asesiad y mae Prif Weinidog Cymru wedi'i wneud o'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth presennol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac adrannau'r Llywodraeth yn Llundain? (OAQ7398) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Ad-drefnu'r Cabinet (Swyddogaethau)

**C18 Brian Hancock:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ofalu y gellir sicrhau atebolrwydd o ran gweithredu holl swyddogaethau Cabinet y Cynulliad yn dilyn yr ad-drefnu diweddar? (OAQ7386) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cyflawni Penderfyniadau a Wnaethpwyd yn y Cyfarfodydd Llawn

**C19 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y cynnydd y mae'r Cynulliad wedi'i wneud o ran cyflawni'r penderfyniadau a wnaethpwyd yn y Cyfarfodydd Llawn? (OAQ7390) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cydlynu Polisi ar gyfer Gogledd Cymru

**C20 Glyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru grisialu sut y mae'n bwriadu cydlynu polisi ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ7416)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ymateb i'r cwestiwn a gyflwynwyd gan Janet Ryder yn y Cyfarfod Llawn yn gynharach y prynhawn yma. Fel y Gweinidog sydd yn gyfrifol am gydlynu polisi'r Llywodraeth yng ngogledd Cymru, byddaf yn sicrhau na fydd gogledd Cymru ar ei golled o gwbl yn y modd y mae'r Cynulliad yn llunio ac yn gweinyddu ei bolisïau.

### Cynrychiolaeth y Cynulliad Cenedlaethol (Cyngor Prydain-Iwerddon)

**C21 David Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar gynrychiolaeth y Cynulliad Cenedlaethol yng nghyfarfod agoriadol grŵp sector yr amgylchedd Cyngor Prydain-Iwerddon a gynhaliwyd ar 2 Hydref? (OAQ7394)

**Prif Weinidog Cymru:** Cynrychiolwyd y Cynulliad Cenedlaethol gan bennaeth Is-adran yr Amgylchedd 1 a'i hymgynghorydd gwyddor yr amgylchedd. Rhoddodd y grŵp ystyriaeth i bapur a oedd yn adolygu

casgliadau adroddiad statws ansawdd ar y moroedd celtaidd a threfniadau i ddilyn y casgliadau hynny. Cytunodd y grŵp hefyd ar amrediad o faterion y byddai'n argymell i'r prif gyngor y dylid bwrw ymlaen â hwy.

**Perthynas y Cynulliad gyda Gweddill y Byd**

**C22 Elin Jones:** Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau o ran perthynas y Cynulliad gyda gweddill y byd? (OAQ7404) ***Tynnwyd yn ôl.***

**'Gwellcymru.com' (Datblygiad Polisi)**

**C23 David Melding:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ddatblygiad polisi cyffredinol y Cynulliad ers mabwysiadu 'Gwellcymru.com'? (OAQ7410)[R] ***Tynnwyd yn ôl.***

**Proffil Rhyngwladol Cymru o Ganlyniad i Ddatganoli**

**C24 John Griffiths:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar y prif fanteision, hyd yn hyn, i broffil rhyngwladol Cymru o ganlyniad i ddatganoli? (OAQ7415) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cysylltiad Prif Weinidog Cymru â Pholisi Ewropeaidd**

**C25 Phil Williams:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad byr ar ei gysylltiad â'r gwaith o ddatblygu polisi Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol? (OAQ7393) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cydlynydd Polisi ar gyfer Gogledd Cymru (Swyddogaethau)**

**C26 Alison Halford:** A yw Prif Weinidog Cymru'n bwriadu cyhoeddi beth yn union yw swyddogaethau'r cydlynydd polisi ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ7414)

**Prif Weinidog Cymru:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i Janet Ryder (OAQ7387) yn y Cyfarfod Llawn heddiw.

**Gogledd a Gorllewin Cymru (Cynrychiolaeth yn y Cabinet)**

**C27 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ynghylch cynrychiolaeth gogledd a gorllewin Cymru yn y Cabinet? (OAQ7406) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Blaenoriaethau o ran Cydlynu Polisi ar gyfer Gogledd Cymru**

**C28 Gareth Jones:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru restru ei flaenoriaethau o ran cydlynu polisi ar gyfer gogledd Cymru? (OAQ7403) ***Tynnwyd yn ôl.***